# Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Adroddiad y Cyfarwyddwr)

## Canllawiau

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Cyd-destun cyfreithiol a pholisi | 4 |
| 3. Adroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol | 8 |
| Atodiad A: Templed ar gyfer cynnwys adroddiad adran 144A | 10 |
| Atodiad B: Gofynion cyfreithiol adroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol | 14 |
| Atodiad C: Arfer da o ran cyflwyno adroddiad i'r cyhoedd | 16 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd y canllawiau hyn yn helpu awdurdodau lleol i baratoi eu hadroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn disodli'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2017 gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu datblygiadau ers cyhoeddi'r canllawiau gwreiddiol, ac adborth gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.

1.2 Mae'r canllawiau:

- yn esbonio'r gofynion ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

- yn adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru i integreiddio'r adroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol i'r Fframwaith Gwella Perfformiad newydd. Yr adroddiad blynyddol "*fydd y mecanwaith cyffredinol y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddangos perfformiad…."*

- yn amlinellu cynulleidfaoedd targed yr adroddiad ac yn rhoi'r opsiwn ar gyfer adroddiad ar wahân ar ffurf sy'n fwy addas i'r cyhoedd; ac

- yn rhoi awgrymiadau ar gyfer arfer da

1.3 Yn amodol ar wneud codau a rheoliadau newydd, mae'r canllawiau hyn yn dod i rym o ddiwedd blwyddyn adrodd 2023-24. Fe'u cyhoeddir i awdurdodau lleol ymlaen llaw i ganiatáu i drefniadau gael eu gwneud i fodloni'r gofynion newydd. Canllawiau cynghorol yw'r rhain, ond maent yn cyfeirio at ofynion cyfreithiol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol, yn fwyaf nodedig *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol*.

## Prif nodweddion

1.4 Mae'r canlynol yn wir am yr adroddiad blynyddol a'r broses adrodd yn awr:

(i) Maent yn rhan o'r Fframwaith Gwella Perfformiad.

(ii) Maent yn rhan annatod o gamau cynllunio, craffu a gwella perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

(iii) Maent yn seiliedig ar hunanasesiad trylwyr o berfformiad, sy'n cynnwys:

a) beth sydd wedi ei gyflawni a'i wneud yn dda.

b) pa welliannau sydd eu hangen, wedi'u llywio gan adborth gan y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill.

c) camau sydd wedi'u cynllunio a'u cymryd i gyflawni anghenion gwella a nodwyd; a

d) cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau gwella a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol

1.5 Mae tri atodiad:

- Atodiad A: Templed ar gyfer cynnwys yr adroddiad
- Atodiad B: Gofynion statudol yn ymwneud â'r adroddiad
- Atodiad C: Nodiadau arfer da ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r cyhoedd

# 2. Cyd-destun cyfreithiol a pholisi

2.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

2.2 Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau:

- Bod gan bobl reolaeth dros ba gymorth sydd ei angen arnynt, gan wneud penderfyniadau am eu cymorth fel partner cyfartal.
- Bod asesiad cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Bod gan ofalwyr hawl gyfartal i gael asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.
- Bod gan bawb fynediad rhwydd at wybodaeth a chyngor.
- Bod trefniadau i ddiogelu pobl yn gryfach.
- Bod dull ataliol o ymdrin ag anghenion gofal a chymorth.
- Bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i sbarduno integreiddio, arloesi a newid i wasanaethau, gan gynnwys mathau newydd o ddarpariaeth.

2.3 Mae'r Ddeddf yn glir ynghylch yr angen am berchnogaeth llywodraeth leol ar newidiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014 fel bod "*manteision lleoli gwasanaethau cymdeithasol o fewn llywodraeth leol yn cael eu cynyddu ac yn rhan o gyfrifoldeb corfforaethol llywodraeth leol dros hyrwyddo lles, cynhwysiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol".*

## Gofynion cyfreithiol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol

2.4 Nodir y gofynion cyfreithiol ar gyfer adroddiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol yn Neddf 2014, yn y codau a wneir o dan y Ddeddf ac mewn rheoliadau. Darperir gwybodaeth fanylach yn Atodiad B yn y canllawiau hyn.

2.5 Yn ôl Adran 144A o Ddeddf 2014, *cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol* ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol, rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ar arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i'r adroddiad:

- gynnwys yr wybodaeth a nodir mewn codau ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2014.
- cael ei gyflwyno i'r Cyngor gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- cael ei gopïo i Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru.
- cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.6 Gydol y canllawiau, mae'r adroddiad hwn, sy'n ofynnol drwy statud, yn cael ei alw'n "**adroddiad adran 144A**" i wahaniaethu rhyngddo ag unrhyw adroddiad dewisol ar wahân a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd a'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

## Fframwaith Gwella Perfformiad

2.7 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y broses adrodd flynyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r Fframwaith Gwella Perfformiad newydd erbyn hyn. Dyma god a wnaed o dan adran 145 o Ddeddf 2014 ar arfer swyddogaethau gwasanaethau

cymdeithasol. Mae ei ddarpariaethau felly yn orfodol. Mae'n disodli'r "*Cod Ymarfer mewn Perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol"* a gyhoeddwyd yn 2016 a'i ganllawiau technegol cysylltiedig. Mae'r fframwaith mwy cynhwysfawr hwn yn adlewyrchu uchelgais i adolygu gofynion data ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu effaith Deddf 2014. [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014]

2.8 Diben y Fframwaith yw:

- Sicrhau bod dull clir a ddeallir yn genedlaethol o lywio perfformiad a gwelliant
- Llywio cynnwys a strwythur adroddiad adran 144A.
- Galluogi ymarferwyr i ddeall y defnydd o dystiolaeth i gefnogi a gwella ymarfer ac i sicrhau bod gan staff sgiliau a chymwysterau priodol.
- Galluogi awdurdodau lleol i ddeall sut y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dwyn i gyfrif.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio i'r un safonau uchel.

2.9 Y sylfeini ar gyfer y fframwaith newydd yw 8 safon ansawdd lefel uchel o dan bedwar pennawd:

1. **Pobl**
2. **Atal**
3. **Partneriaethau ac integreiddio**
4. **Lles**

2.10 Mae'r penawdau'n darparu strwythur ar gyfer adrodd yn rheolaidd ar fetrigau perfformiad y cytunwyd arnynt. Mae'r Fframwaith yn dweud:

"*bwriedir i'r safonau ansawdd lefel uchel fod yn uchelgeisiol, yn hytrach na rhestr wirio i'w bodloni*" a'u bod *"wedi'u cynllunio i herio awdurdodau lleol, i godi uchelgais ac i annog arloesi*". Eu nod yw sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth "*yn gallu cael mynediad at y cymorth iawn ar yr adeg iawn o'r lle iawn a bod gweithwyr proffesiynol profiadol a/neu gymwys priodol ar gael i gyflawni hyn*"

2.11 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r wyth safon lefel uchel o dan y pedwar prif bennawd:

**Tabl 1: Fframwaith Gwella Perfformiad - Safonau ansawdd lefel uchel**

| | |
|---|---|
| **Pobl** | • *Mae pob person yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo*<br>• *Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu hynod fedrus, hynod gymwys sy'n cael ei gefnogi'n dda yn gweithio tuag at weledigaeth gyffredin.* |

| | |
|---|---|
| **Atal** | • *Mae llai o angen am ofal a chymorth ac mae uwchgyfeirio angen yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl*<br>• *Mae gwydnwch mewn cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas"* |
| **Partneriaeth ac integreiddio** | • *Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl*<br>• *Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal* |
| **Lles** | • *Mae pobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed*<br>• *Mae pobl yn cael eu cefnogi i fynd ati i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl* |

2.12 Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd drwy adroddiad adran 144A **ac** i ddangos eu bod yn defnyddio tystiolaeth ac ymchwil i gefnogi eu darpariaeth a'u gwelliannau i wasanaethau.

2.13 Mae'r safonau ansawdd yn cyd-fynd â Chod Ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Maent yn gysylltiedig hefyd â'r saith nod llesiant yn Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu tair dogfen ategol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gipio a defnyddio gwybodaeth a data am berfformiad:

### Canllawiau mesur gweithgarwch a pherfformiad

2.15 Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut y dylai awdurdodau lleol gasglu data a thystiolaeth. Mae'n cyflwyno fframwaith o fetrigau hefyd sy'n cwmpasu oedolion, plant a gofalwyr y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ynghyd â data dienw ar lefel person a data cyfanredol ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n dweud y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain hefyd er mwyn deall yn well sut mae darparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn ôl blaenoriaethau lleol. [Mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol: cod ymarfer | LLYW.CYMRU]

2.16 Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i:

- Ddeall gwasanaethau lleol a'r bobl sy'n eu defnyddio yn well

- Darparu llinell sylfaen gyson i ddadansoddi gweithgarwch ac asesu cydymffurfiaeth a gwelliant yn erbyn gofynion Deddf 2014.

- Llywio gwerthusiadau polisi ar y lefel genedlaethol

- Llywio adolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad awdurdodau lleol ac unrhyw adolygiadau thematig cenedlaethol.

- Llywio Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei rôl o gefnogi gwelliannau yn y sector.

- Llywio awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill i helpu i hyrwyddo cydweithio

2.17 Mae'r data'n cael ei adrodd ar wahân i Lywodraeth Cymru ond dylid ei ddyfynnu lle bo hynny'n briodol yn rhan hunanasesiad yr adroddiad adran 144A. Gweler Atodiad A

**Deall profiadau a chanlyniadau**

2.18 Mae hyn yn darparu syniadau ymarferol i helpu awdurdodau lleol i ddeall profiadau a chanlyniadau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n disgrifio ffyrdd o ennyn diddordeb pobl a rhai o'r methodolegau a'r offer sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru, gan gynnwys: Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth, Atebolrwydd ar sail Canlyniadau, Brights Spots (arolwg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) a'r Rhestr Gofal Cymunedol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae'n cynnwys cyngor ar greu offer arolygu, gan gynnwys arolygon digidol; templed ar gyfer astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; cyngor am reoli gweithgareddau ymchwil sy'n cynnwys ymgysylltu â phobl ,gan gynnwys samplu, ystyriaethau moesegol, diogelu a'r gyfraith ynghylch defnyddio data personol.

Deall profiadau a chanlyniadau'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | LLYW.CYMRU

**Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant**

2.19 Mae'r canllawiau hyn yn cynnig syniadau a chyngor ymarferol ar sut y gellir defnyddio tystiolaeth i lywio gwasanaethau cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n cynnwys cyngor ar ddeall a defnyddio tystiolaeth, casglu a dadansoddi tystiolaeth a sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyson a chynaliadwy. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth hefyd wedi cyhoeddi adroddiad "*Defnydd o Dystiolaeth ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*

Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol: defnyddio tystiolaeth fel sail ar gyfer gwella | LLYW.CYMRU

Using evidence in social services and social care in Wales | SCIE

# 3. Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol

## Diben yr adroddiad

3.1 Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella'n disgrifio diben adroddiad adran 144A fel a ganlyn:

- amlinellu taith wella awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau i bobl sy'n defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth ac unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr sy'n derbyn cymorth.

- defnyddio gwybodaeth o'r fframwaith newydd ac o ffynonellau eraill i ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a chyflawni safonau ansawdd.

- dangos cynnydd yn erbyn yr wyth safon ansawdd, a llywio penderfyniadau ar sut i ymateb o safbwynt y swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol ar lefel sefydliadol gorfforaethol.

- dangos sut mae'r safonau a'r egwyddorion yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol a gwella canlyniadau lles.

- galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth am ddarparu gofal a chymorth i ofalwyr ledled Cymru.

## Hunanasesu

3.2 Mae adrannau 89-91 o Ddeddf 2021 yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu perfformiad yn barhaus, i ymgynghori â phobl leol ac eraill ar y perfformiad ac i adrodd yn flynyddol ar berfformiad mewn "adroddiad hunanasesu".

3.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar y dyletswyddau newydd hyn [Perfformiad a llywodraethu awdurdodau lleol: canllawiau statudol | LLYW.CYMRU]. Mae'r canllawiau'n diffinio hunanasesiad fel:

> "*asesiad sefydliadol, corfforaethol yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol*". Mae'n dweud hefyd na fydd y broses hunanasesu gorfforaethol hon *"yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ailystyried swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn fanwl"*

3.4 Bwriad yr hunanasesiad ar gyfer adroddiad adran 144A yw adlewyrchu egwyddorion hunanasesu'r adroddiad a gynhyrchwyd o dan Ddeddf 2021, ond ar lefel gwasanaeth yn hytrach na lefel gorfforaethol.

3.5 Mae hunanasesiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ofyn iddo'i hun ac ateb y cwestiynau a nodir yn Atodiad A yng nghyd-destun wyth safon ansawdd lefel uchel y Fframwaith.

3.6 I fod yn effeithiol, dylai'r hunanasesiad:

- Fod wedi'i integreiddio yn y ffordd mae'r awdurdod yn monitro, adolygu ac adrodd ar ei berfformiad ym maes gwasanaethau cymdeithasol, yn hytrach na bod yn broses annibynnol.

- Cael ei ystyried yn rhan annatod o systemau perfformiad, yn hytrach nag ymarfer mewn cydymffurfiaeth.

- Bod yn agored, gonest, cytbwys a gwrthrychol am gyflawniadau a heriau

- Canolbwyntio ar ganlyniadau a'r effeithiau ar fywydau a phrofiadau pobl, yn hytrach na disgrifiadau o'r broses

- Bod yn seiliedig ar dystiolaeth dda gan ddefnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ymchwil bwrpasol.

3.7 Dylai'r broses adrodd flynyddol gael ei defnyddio gydol y flwyddyn a dylai fod yn rhan annatod o drefniadau cynllunio busnes, adolygu, monitro a gwella perfformiad awdurdod lleol. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i gyflawni hyn gan ystyried eu systemau a'u trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol eu hunain a sut y gall canfyddiadau o'r broses adrodd flynyddol hon lywio unrhyw themâu trawsbynciol ar gyfer hunanasesiad corfforaethol o dan Ddeddf 2021.

## Amserlen cyhoeddi

3.8 Mae Deddf 2014 yn dweud y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Os bydd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad yn cael ei chasglu dros y flwyddyn gyfan, yna, yn dibynnu ar brosesau'r awdurdod lleol ei hun ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad, dylai fod modd cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Gorffennaf. O dan amgylchiadau arferol, ni ddylid ei gynhyrchu wedi hynny.

## Cynulleidfaoedd targed

3.9 Mae'r Fframwaith yn dweud:

> "*Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio tystiolaeth a gesglir drwy'r Cod i ddeall yr effaith mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn ei chael ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Y nod yw i dystiolaeth gael ei defnyddio ar bob lefel o'r system gofal cymdeithasol - <u>unigolion</u> (e.e. gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol), gan awdurdodau <u>lleol</u>, ar y lefelau <u>rhanbarthol</u> (e.e. Byrddau Partneriaeth Ranbarthol) ac ar y lefel <u>genedlaethol</u> h.y. Llywodraeth Cymru, i lywio a chynnal gwelliant parhaus a chyson, ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau*".

3.10 Mae **Llywodraeth Cymru** yn bwriadu defnyddio tystiolaeth o'r broses adrodd i ddeall effeithiolrwydd polisi cenedlaethol, i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol ac i sicrhau gwelliant parhaus ym mhob rhan o Gymru.

3.11 Bydd **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn defnyddio'r dystiolaeth i lywio ei gweithgarwch adolygu perfformiad.

3.12 Bydd **Gofal Cymdeithasol Cymru** yn defnyddio'r adroddiadau yn eu rolau allweddol yn cynorthwyo ymarferwyr, awdurdodau lleol a'r sector gofal ehangach i ddeall a defnyddio data'n effeithiol a chefnogi gwella gwasanaethau.

3.13 I **aelodau'r cyhoedd**, caiff awdurdodau lleol, os dymunant, gyhoeddi adroddiad ar wahân mewn fformat ac arddull fwy priodol. Dylid penderfynu ar ffurf a chynnwys yr adroddiad hwnnw'n lleol yng ngoleuni anghenion a dewisiadau lleol. Gallai fod yn adroddiad cwbl ar wahân neu'n adroddiad cryno mewn iaith syml a ddefnyddir fel pennod agoriadol adroddiad adran 144A y gellir ei gyhoeddi ar wahân hefyd. Darperir nodiadau arfer da ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r cyhoedd yn Atodiad C.

------

# Atodiad A: Templed ar gyfer cynnwys adroddiad adran 144A

A1 Dylai strwythur yr adroddiad ddilyn trefn y penawdau wedi'u tanlinellu a nodir isod a defnyddio'r canllawiau sy'n cefnogi'r Fframwaith Gwella Perfformiad.

## Crynodeb y cyfarwyddwr

A2 Trosolwg o berfformiad ar ffurf y gellid ei defnyddio mewn fersiwn ar wahân o'r adroddiad a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd.

## Adran cyd-destun

A3 Adran ffeithiol sy'n nodi sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac yn ymdrin â'r elfennau canlynol.

- **Arweinyddiaeth:** Naratif byr yn esbonio sut mae arweinyddiaeth wleidyddol a threfniadau llywodraethu, craffu a herio'r awdurdod lleol yn helpu i bennu blaenoriaethau a hyrwyddo lles ar draws swyddogaethau'r awdurdod lleol.

- **Gweithlu:** Gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol, recriwtio a chadw sy'n cwmpasu gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn uniongyrchol gan dynnu sylw at heriau ac unrhyw atebion sydd ar waith i fynd i'r afael â nhw a sut mae staff yn cael eu cefnogi a'u datblygu yn eu rolau proffesiynol.

- **Adnoddau ariannol** Gwybodaeth am y gyllideb yn ôl meysydd gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn adrodd a chymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.

A4 Dim ond datganiadau byr sy'n tynnu sylw at unrhyw newid sylweddol ers y flwyddyn flaenorol sydd eu hangen. Mae'n dderbyniol cyfeirio at ddogfennau cyhoeddedig ar wahân os darperir cyfeiriad neu ddolen electronig.

## Adran asesu perfformiad

A5 Dylai'r adran hon adrodd yn erbyn pob un o'r pedwar maes yn y Fframwaith Gwella Perfformiad – Pobl; Atal; Partneriaeth ac Integreiddio; Lles. Ym mhob un ohonynt, dylai'r sylwebaeth ateb pedwar cwestiwn hunanasesu:

1. **Beth ydyn ni'n ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn rydyn ni'n ei wneud?**

2. **Sut rydyn ni'n gwybod? E.e. pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau ydyn ni'n eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn?**

3. **Beth ydyn ni'n ei wneud yn dda a sut allwn ni wneud yn well? Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn enwedig dros y flwyddyn nesaf?**

4. **Pa gynnydd wnaethon ni ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth wnaethon ni?**

A6 Dylai'r hunanasesiad fod yn werthusol, gan fanteisio ar dystiolaeth ansoddol a meintiol. Dylai'r pwyslais fod ar hunanasesu, yn hytrach na disgrifiad o'r hyn a ddarperir yn unig. Gellir defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau e.e. data perfformiad gweithredol, ymchwil, arolygon, digwyddiadau ymgysylltu, ymgynghoriadau a phaneli dinasyddion. Lle cyfeirir at unrhyw un o'r metrigau a nodir yn y Canllawiau Mesur

Gweithgarwch a Pherfformiad, dylid darparu digon o gyd-destun e.e. a yw'n duedd sy'n gwella?

A7 Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r deunydd yn berthnasol i fwy nag un o'r pedwar pennawd safon ansawdd isod. Pan fo hyn yn berthnasol, dylai awdurdodau lleol gynnwys y deunydd o dan y pennawd a ystyrir fwyaf priodol. Lle bo angen, dylid croesgyfeirio i osgoi ailadrodd mewn gwahanol adrannau.

**Pobl**

A8 Safonau ansawdd:

- *"Mae pob person yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo"*
- *Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu hynod fedrus, hynod gymwys sy'n cael ei gefnogi'n dda yn gweithio tuag at weledigaeth gyffredin".*

A9 Dylai hyn esbonio sut mae'r awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan Ran 3 (Asesu Anghenion Unigolion) a Rhan 4 (Diwallu Anghenion) a, lle bo hynny'n briodol, Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf 2014, gan gynnwys:

- Sicrhau bod pobl yn rhan annatod o wasanaethau a chymunedau
- Mae gan bobl lais cryf a rheolaeth dros yr hyn y maent yn ei dderbyn (gydag eiriolaeth lle bo hynny'n briodol) ac mae barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael ei hadlewyrchu yn asesiad yr awdurdod o'i berfformiad
- Sut mae pobl yn llywio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn
- Mae'r ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, y canlyniadau maent am eu cyflawni a sut y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i helpu i hyrwyddo eu lles eu hunain
- Mae ymarferwyr a rheolwyr yn sicrhau bod ymarfer a goruchwyliaeth wedi'u seilio ar wybodaeth gyfoes ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Mae'r swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei harwain a'i chefnogi'n dda ar lefel gwasanaeth, corfforaethol a gwleidyddol
- Y Gymraeg: cynnydd yng nghyd-destun Cynllun Pum Mlynedd 2022-27 Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol.

**Atal**

A10 Safonau ansawdd:

- "*Mae llai o angen am ofal a chymorth ac mae'r cynnydd mewn angen yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl"*
- *"Mae gwydnwch o fewn cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas*".

A11 Dylai hyn esbonio:

- Y defnydd o ddulliau ataliol ac integredig, gan sicrhau bod y gofal a'r cymorth iawn yno ar yr adeg iawn i oedi neu osgoi uwchgyfeirio angen

- Sut mae gwasanaethau a chanlyniadau'n gymesur, wedi'u targedu, yn gynaliadwy ac yn cael eu cefnogi drwy hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector.

A12 Gall gweithgarwch ataliol gynnwys mesurau ar raddfa eang sydd wedi'u hanelu at y boblogaeth ehangach, yn ogystal ag ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer unigolion

**Partneriaeth ac integreiddio**

A13 Safonau ansawdd:

- *"Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl"*
- *"Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal"*

A14 Dylai hyn esbonio:

- Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'i fwrdd/fyrddau iechyd yn cydweithio i nodi anghenion a datblygu adroddiadau asesu poblogaeth integredig fel sail i lywio a chomisiynu gwasanaethau cynaliadwy
- Pa mor dda mae'r awdurdod wedi cefnogi cydweithio a phartneriaeth, gan gynnwys gydag awdurdodau lleol eraill, y trydydd sector a darparwyr.

A15 Lle bo'n briodol, dylai'r adroddiad gyfeirio at adroddiadau eraill fel rhai byrddau partneriaeth rhanbarthol, asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal a myfyrio ar gynlluniau rhanbarthol a phartneriaeth.

**Lles**

A16 Safonau ansawdd

- *"Mae pobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*
- *"Mae pobl yn cael eu cefnogi i fynd ati i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl"*

A17 Dylai'r rhan hon o'r adroddiad esbonio pa mor dda mae'r awdurdod lleol wedi:

- Arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'i swyddogaethau perthynol i wneud cyfraniad cadarnhaol at les pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, gan barchu eu diwylliant, eu credoau a'u nodweddion personol eraill, a pharchu eu dymuniadau a'u teimladau
- Adeiladu ar amgylchiadau personol, galluoedd, rhwydweithiau a chymunedau lleol pobl
- Gweithio gyda phobl i ddatblygu atebion creadigol
- Rhoi trefniadau diogelu effeithiol ar waith.

A18 Mae "esgeulustod" yn cynnwys gweithgarwch i atal hunan-esgeulustod difrifol.

A19 Gall awdurdodau lleol gyfeirio at adroddiadau byrddau diogelu rhanbarthol ac asiantaethau eraill, a darparu dolen iddynt, am fwy o fanylion lle bo hynny'n briodol.

A20 Mae lles i oedolion a phlant wedi'i ddiffinio yn Rhan 2 o Ddeddf 2014 ac yn fanylach yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol [**Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol**]. Nid yw'n ofynnol mwyach i gynghorau gyflwyno adroddiad ar wahân yn erbyn pob un o'r 6 chanlyniad ansawdd lles sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

## Adran gwybodaeth arall

A21 Mae'r rhain yn faterion i adrodd arnynt nad ydynt yn perthyn i un o'r safonau ansawdd yn unig o reidrwydd.

### Arolygiadau ac adolygiadau

A22 Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi adrodd ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor o fewn y flwyddyn adrodd, dylid cynnwys y prif bwyntiau. Dylid tynnu sylw at unrhyw welliannau a wnaed gan y Cyngor neu sydd ar y gweill mewn ymateb i'r adroddiad arolygu. Mae'n arfer da cyfeirio at yr adroddiad arolygu llawn ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru a darparu dolen iddo.

A23 Yn ei hunanasesiad a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella dylai'r awdurdod gynnwys sut y mae'n bwriadu gweithredu hefyd ar unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion perthnasol o adolygiadau thematig cyfnodol AGC ac unrhyw adroddiadau perthnasol gan Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant. Mae'n dderbyniol gwneud cyfeiriad byr yma a chyfeirio'r darllenydd at ddogfen arall am fwy o fanylion.

### Cwynion a sylwadau

A24 Nid yr ystadegau sydd bwysicaf, ond unrhyw dueddiadau amlwg a pha newidiadau a gwelliannau mae'r awdurdod wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, mewn ymateb i gwynion ac ymchwiliadau. Ar gyfer nifer y cwynion, mae'n dderbyniol cyfeirio at adroddiad cwynion blynyddol corfforaethol y Cyngor, a darparu dolen iddo, am fwy o fanylion os yw'r ystadegau ar gyfer cwynion gwasanaethau cymdeithasol wedi'u dadgyfuno.

A25 Mae cwynion a sylwadau'n cynnwys unrhyw rai a gafwyd gan Gorff Llais y Dinesydd a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

### Cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth eraill

A26 Ni all yr hyn sy'n adroddiad trosolwg i bob pwrpas gwmpasu pob agwedd ar bopeth mae awdurdod lleol yn ei wneud yn ei wasanaethau cymdeithasol a'i swyddogaethau perthynol. Gall y sylwebaeth esbonio nad yw'r ffaith bod ardal wedi'i dewis fel amcan blaenoriaeth yn golygu nad oes unrhyw beth yn digwydd mewn mannau eraill. Gellir cyfeirio'r darllenydd at adroddiadau eraill megis cynlluniau lefel gwasanaeth, cynlluniau corfforaethol a chynlluniau busnes ategol os oes angen mwy o wybodaeth arno. Mae'n arfer da cynnwys cyfeiriad a dolen electronig lle gellir dod o hyd i unrhyw ddogfen arall sydd ar gael i'r cyhoedd.

------

# Atodiad B: Gofynion cyfreithiol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol

B1 Mae adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

B2 Mae adran 144A yn dweud bod rhaid i'r adroddiad gynnwys:

(a) manylion sut mae'r awdurdod wedi arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys manylion i ba raddau mae'r awdurdod wedi —

(i) gweithredu'n unol â'r gofynion a osodwyd ar awdurdodau lleol gan god a gyhoeddwyd o dan adran 9 (codau i helpu i gyflawni canlyniadau o ran llesiant),
(ii) gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a geir mewn cod a gyhoeddwyd o dan adran 145 (codau ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol), a

(iii) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol mewn cod a gyhoeddwyd o dan adran 145, ac

(b) unrhyw wybodaeth arall a bennir gan reoliadau.

(c) rhaid i'r manylion a ddarperir o dan is-adran (2)(a)(ii) nodi sut mae'r awdurdod wedi bodloni unrhyw ofynion a gynhwysir mewn cod yn ymwneud ag asesu anghenion unigolyn yn unol â Rhan 3 a diwallu anghenion o dan Ran 4.

B3 Mae Isadrannau 144A (4) a (5) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad blynyddol ar ffurf a bennir gan reoliadau, a rhaid anfon copi o'r adroddiad a gyhoeddwyd at Weinidogion Cymru.

B4 Gan gymryd pob un o'r gofynion a restrir ym mharagraff B2 yn eu tro:

<u>A144A(a)(ii)</u>
Mae codau a wnaed o dan Adran 145 o Ddeddf 2014 sy'n ymwneud mewn rhyw ffordd ag adroddiad Adran 144A yn cynnwys:

- Mae Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) yn cwmpasu trefniadau partneriaeth, lles a dyletswyddau cyffredinol
- Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- Y Fframwaith Gwella Perfformiad a chanllawiau cysylltiedig
- Cod Rhan 3 (Asesu Anghenion)
- Cod Rhan 4 (Diwallu Anghenion)

<u>Cod Rhan 8 ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

Mae paragraffau 81-90 o'r Cod Rhan 8 yn nodi gofynion amrywiol ar gyfer adroddiad A144A. Rhaid i'r Cyfarwyddwr baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol am arfer swyddogaethau'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Rhaid i'r adroddiad:

- Gael ei gyflwyno i'r Cyngor gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'i gopïo i Weinidogion Cymru

- Gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

- Nodi sut mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni'r chwe safon ansawdd ar gyfer lles a amlinellir mewn Cod a wnaed o dan Ran 2 o Ddeddf 2014 ac wedi:

    - hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth ar gyfer yr ardal awdurdod lleol
    - asesu a diwallu anghenion yn unol â Chodau a wnaed o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf 2014

- Rhoi sicrwydd ar:

    - Drefniadau strwythurol sy'n darparu llywodraethu da ac atebolrwydd cryf
    - Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol
    - Perfformiad o ran ymdrin â chwynion a sylwadau
    - Ymateb i unrhyw archwiliad(au) a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
    - Diweddariad ar weithredu "Mwy na geiriau"
    - Esbonio sut mae'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu â phobl wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol

------

# Atodiad C: Arfer da o ran cyflwyno adroddiad i'r cyhoedd

C1 Mae gan awdurdodau lleol brofiad sylweddol o gynhyrchu cyhoeddiadau, a byddant am fanteisio ar y profiad hwn os byddant yn cynhyrchu adroddiad gwasanaethau cymdeithasol ar wahân i'r cyhoedd. Mae'r pwyntiau canlynol yn deillio o arfer da a nodwyd mewn adolygiad o adroddiadau blynyddol gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2020-21 ac adolygiad ehangach o lenyddiaeth sydd ar gael

C2 Dylai'r adroddiad adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt, y gellir ei chanfod o safbwyntiau sefydliadau cynrychiadol, grwpiau ffocws, digwyddiadau ymgysylltu, cwynion a sylwadau eraill.

C3 Yn aml mae'r wybodaeth bwysicaf i'r cyhoedd yn ymwneud â pha wasanaethau sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael cymorth, sut i'w gyrchu, pa mor hir y bydd yn ei gymryd i'w drefnu ac a fydd ffi am y gofal a'r cymorth. Efallai nad yw hyn yn addas ar gyfer adroddiad perfformiad blynyddol, ond gall yr adroddiad gyfeirio'r darllenydd at ble mae modd dod o hyd i wybodaeth o'r fath a ffynonellau eraill o gymorth a gwybodaeth. Lle'n briodol, dylai gyfeirio at adroddiadau perthnasol eraill hefyd e.e. adroddiad adran 144A ac adroddiadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

C4 Mae arddull yn fater i'r awdurdod lleol, ond mae angen i ddogfen sy'n wynebu'r cyhoedd fod mewn iaith bob dydd syml ac yn ddi-jargon. Efallai y bydd llawer o dermau sy'n cael eu defnyddio bob dydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac yn yr awdurdod lleol yn anghyfarwydd i'r cyhoedd ac angen eu hesbonio.

C5 Dylai'r adroddiad fod yn gryno. Efallai nad yw pobl yn dueddol o ddarllen adroddiad hir, neu efallai nad oes amser ganddynt. Gall gormod o gynnwys guddio negeseuon allweddol am berfformiad a gwelliant.

C6 Dylid osgoi acronymau. Os ystyrir eu bod yn angenrheidiol, dylai acronymau gael eu hysgrifennu'n llawn y tro cyntaf, a dylai eu hystyr gael ei esbonio'n llawn mewn iaith syml yn y testun neu yn y rhestr termau.

C7 Nid yw pawb sydd â diddordeb ym mherfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd.

C8 Anogir yr arfer presennol o ddarparu amrywiaeth o fformatau e.e. print mawr, deunydd hawdd ei ddeall a straeon fideo byr. Gall straeon fideo ddod ag adroddiad yn fyw a gall fod yn ffurf effeithiol o gyfathrebu.

C9 Dylai'r adroddiad fod yn hawdd dod o hyd iddo ar wefan yr awdurdod lleol, a dylai'r fersiynau ar y we fod yn hawdd i'r darllenydd eu defnyddio.

C10 Mae dyluniad effeithiol, gan gynnwys defnyddio lliw, siartiau a darluniau, yn helpu darllenwyr i ddeall y ffeithiau allweddol a data perfformiad.

C11 Mae astudiaethau achos dienw a sylwadau neu ddyfyniadau gan y cyhoedd yn disgrifio’u profiad yn gallu tynnu sylw at brofiad bywyd.

------